

Ffurflen astudiaeth

Enw'r astudiaeth Cyfuno gorsafoedd tân y Bargod a Chefn Fforest a chodi adeilad pwrpasol newydd ar gyfer gwasanaeth tân ac achub y gymuned.

Partneriaid Awdurdod unedol, cyngor lleol, pobl gysylltiedig, cynllunio, priffyrdd

Geiriau allweddol Adeilad pwrpasol newydd ar gyfer gwasanaethau tân ac achub y gymuned



1. Cyflwyniad byr

Mae Awdurdod Tân ac Achub y Deheubarth wedi prynu tair erw rhwng Tredegar Newydd a'r Hengoed ar gyfer codi gorsaf newydd cymunedau'r Bargod a Chefn Fforest. Gorsaf Tân ac Achub Cymuned Aberbargod fydd enw'r adeilad newydd. Penderfynodd yr awdurdod wneud hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru dorri ei gyllideb. Gan nad oes modd ei osgoi, does dim diben ymgynghori am y penderfyniad er bod Gwasanaeth Tân ac Achub y Deheubarth am ymgysylltu â chymunedau'r ardal yn ogystal â'i staff a thrigolion y deheubarth i gyd i'w helpu i ddeall pam roedd angen dod i'r penderfyniad hwnnw a pha bosibiliadau allai ddeillio ohono.

2. Manylion y pwnc sydd wedi'i drafod

Dyma'r materion sydd wedi'u trafod yn yr astudiaeth hon:

- pryderon staff y gwasanaeth (criwiau'r ddwy orsaf);
- pryderon cymunedau y bydd y penderfyniad yn effeithio arny'n nhw;
- yr effaith ar garfanau yn y gymuned;
- manteision yr orsaf newydd o'i chymharu â'r rhai cyfredol;
- tawelu meddyliau'r cymunedau a'r staff fel ei gilydd ynglŷn â manteision yr orsaf newydd;
- pryderon am gynnal safon uchel y gwasanaeth cyfredol.

3. Camau sydd wedi'u cymryd

Gwahoddwyd pobl y fro, criwiau'r ddwy orsaf a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol, cyngor y gymuned leol a'r byd masnachol i gyfarfod ger y safle newydd. Diben y cyfarfod oedd cynnig cyfle i bawb weld ble byddai'r orsaf newydd a disgrifio ei nodweddion. Cludwyd pobl i'r cyfarfod yn rhad ac am ddim a rhoddwyd lluniaeth yn ystod y cyfarfod.

Ffurflen astudiaeth

4. Buddion megis gwella gwasanaethau, gwella trafodaethau am ariannu a threfnu gwasanaethau rhwng mudiadau'r trydydd sector a'r awdurdodau lleol, trefniadau cymorth ar ffurfiau amgen ac ati.

Buddion i'r cymunedau:

- Adeilad pwrpasol newydd ac iddo gyfleusterau cyfoes ar gyfer gwasanaeth o safon uwch.
- Ymateb yn gyflymach ac yn fwy cyson yn ôl yr angen yn y fro.
- Cyfleusterau hyfforddi newydd i ymdopi ag anghenion cyfnewidiol.
- Llai o garbon o ganlyniad i ddyllunio adeilad yn ôl gofynion amgylcheddol cyfoes.
- Ymgysylltu'n well â'r gymuned trwy gynnig ystafell y byddai grwpiau cymunedol yn cael ei defnyddio'n rhad ac am ddim ar gyfer cyrsiau rhagofalon tân yn y cartref, cyfarfodydd yn y gymuned, canolfan alw heibio ac ati. Trwy hynny, byddai'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n well â'r trigolion a byddai'r deheubarth yn lle mwy diogel i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.

5. Cynnal a/neu ddatblygu'r buddion

Pe bai'r cyfuno'n llwyddiant, byddai modd ystyried safleoedd eraill yn ardal y gwasanaeth a defnyddio rhai o'r syniadau sydd wedi deillio o'r prosiect er lles cymunedau eraill yma. Wrth ddatblygu'n banel ymgynghori ymhellach, byddwn ni'n annog yr aelodau i'n helpu i lunio gwasanaeth y dyfodol a gwella ei safonau uchel eto fyth.

6. Cyd-fynd ag Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Gwerthuso

1 = gwael iawn: 2 = gwael: 3 = gweddol: 4 = da: 5 = rhagorol

Egwyddor	Gwerthuso
Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol.	4
Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis.	3
Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol.	3
Cydweithio â phartneriaid perthnasol.	3
Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon.	4
Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan.	4
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.	4
Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol.	3
Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad.	2
Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu.	3

Ffurflen astudiaeth

7. Trin a thrafod y prosiect yn ôl Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

*****Rydyn ni wedi gwerthuso'r ymgysylltu a rhol rhesymau am y sgoriau a roeson ni yn ymateb i gwestiwn 6 uchod*****

Egwyddor	Sgôr	Rhesymau
Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol.	4	Diben yr ymgysylltu oedd tawelu meddyliau'r bobl y byddai'r orsaf a'r gwasanaeth newydd yn well o lawer na'r rhai cyfredol.
Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis.	3	Cyhoeddi manylion y cyfarfod i gymunedau, cwmnïau a phobl berthnasol eraill y fro trwy wefan y gwasanaeth, taflenni a ledaenwyd ymhlith y trigolion a hysbysfyrdau mawr y tu allan i'r ddwy orsaf. Cludo pobl anabl a hŷn, teuluoedd tlawd a grwpiau anodd eu cyrraedd yn rhad ac am ddim fel y byddai rhagor yno.
Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol.	3	Er bod y cynllunio'n dda, dylen ni fod wedi'i ddechrau'n gynharach i roi cyfleoedd gwell i'r gwasanaeth siarad â chymunedau cyn iddyn nhw glywed straeon a sibrydion am y prosiect.
Cydweithio â phartneriaid perthnasol.	4	Bu yn y cyfarfod brif swyddog y gwasanaeth, tîm rheoli eiddo'r gwasanaeth, yr adeiladwyr a prif benseiri'r prosiect. Cyfleoedd pob partner ei safbwynt, ei farn broffesiynol ac ati.
Rholi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon.	4	Lluniwyd taflenni a gwybodaeth mewn iaith blaen gan roi crynodeb o'r prosiect ac annog pobl i ddod i'r cyfarfod a mynegi eu sylwadau a'u pryderon.
Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan.	4	Cynnig cludiant yn rhad ac am ddim (fel sydd wedi'i nodi uchod), cynnal cyfarfod mewn lle hawdd ei gyrraedd ger safle'r adeilad newydd a dangos pa mor gyfleus fyddai i bobl y ddwy gymuned.
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.	4	Fel sydd wedi'i nodi uchod.
Rholi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol.	3	Trwy gynnwys partneriaid, roedd panel eang a chynhwysfawr ar gael i ateb cwestiynau a thawelu meddyliau pobl.
Rholi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad.	2	Y cyfraniad y tro hwn oedd i'r gwasanaeth roi gwybod i bobl bod angen bwrw ymlaen â'r prosiect a'u hannog i'w gefnogi (eu hysbysu yn hytrach nag ymgynghori â nhw).
Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu.	3	Dysgwyd ei bod yn bwysig cyfathrebu â phobl o'r dechrau fel na fyddai'r un maen tramgwydd na phwnc llosg y gallen ni fod wedi'u hosgoi.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Participation
Cymru
Cyfranogaeth
Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



WLGA • CLILC

Ffurflen astudiaeth

Manylion cysylltu

Enw: Mark Rolfe

Swydd:

Sefydliad:

Ebost: m-rolfe@southwales-fire.gov.uk

Ffôn: 01443 209980 / 07826 923277

2013